Hugh Latimer *c.*1485–1555

Esgob Caerwrangon a merthyr Protestannaidd

Ym mhentref Thurcaston i'r gogledd o Gaerlŷr y ganwyd Hugh Latimer. Roedd ei dad yn ffermwr cyffredin a magwyd ef a'i chwe chwaer mewn awyrgylch Gristnogol. Roedd yn fachgen galluog ac anfonwyd ef i ysgol ramadeg a phan oedd yn bedair ar ddeg oed i Gaergrawnt. Enillodd radd BA ym 1511, MA ym 1514 a BTh ym 1524. Fe'i hetholwyd yn gymrawd yng Ngholeg Clare ym 1510 ac fe'i hordeiniwyd yn ddiacon yng Nghadeirlan Lincoln ac yn offeiriad yn Lidington ym 1515.

Pan ddaeth syniadaeth newydd Protestaniaeth i Loegr roedd Latimer ar y dechrau yn chwyrn yn ei herbyn ond yn raddol newidiodd ei feddwl. Daeth dan ddylanwad Thomas Bilney a George Stafford, dynion oedd â diddordeb mawr yn nysgeidiaeth Martin Luther yn yr Almaen. Daeth Latimer dan amheuaeth o goleddu Lutheriaeth ac ymwelodd yr Esgob Nicholas West o Ely ag ef ym 1525 i fwrw llinyn mesur dros ei bregethu. Yn fuan wedyn bu'n rhaid iddo fynd gerbron y Cardinal Thomas Wolsey am yr un rheswm. Yn ystod tymor yr Adfent 1529 achosodd gynnwrf trwy alw am i'r Beibl gael ei gyfieithu i'r Saesneg. Roedd hynny yn anghyfreithlon ar y pryd. O 1530 ymlaen dechreuodd ef a'i gyfeillion ymosod ar rai o ddaliadau'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yn enwedig yr athrawiaeth am y purdan. Dwysaodd y gwrthdaro rhwng y diwygwyr a'r Cristnogion traddodiadol yn enwedig pan ddaeth yr Archesgob William Warham fel olynydd i Wolsey. Llosgwyd cyfaill Latimer sef Bilney, oherwydd ei argyhoeddiadau Protestannaidd, yn Norwich ym 1531. Yn y cyfnod hwn y daeth anghenion Harri VIII i achub cam y diwygwyr. Daeth Anne Boleyn i gefnogi Latimer ac oherwydd ei dylanwad hi fe'i dyrchafwyd o fewn yr eglwys. Fe'i gwahoddwyd gan y Brenin Harri i bregethu am y tro cyntaf yn y llys yn ystod Grawys 1530 yng Nghastell Windsor. Y flwyddyn ddilynol fe'i penodwyd yn rheithor ffyniannus West Kington, Wiltshire. Er hynny, fe'i cyhuddwyd o arddel syniadau Protestannaidd ac fe'i hesgymunwyd ym 1532 a'i garcharu yn Lambeth, ond oherwydd ei deyrngarwch i'r brenin fe'i rhyddhawyd. Yn ystod cyfres o bregethau yng nghyfnod y Grawys ym Mryste achosodd ragor o gythrwfl

trwy danseilio'r athrawiaethau am gyfiawnhad trwy weithredoedd a swyddogaeth y Forwyn Fair fel cyfryngwr. Roedd y cyfnod hwn yn gyfnod allweddol yn natblygiad y Diwygiad Protestannaidd yn Lloegr.

Cysegrwyd Latimer yn Esgob Caerwrangon gan Cranmer ym mis Medi 1535 ac yn ddiymdroi aeth ati i gael gwared â delwau a delweddau o'r eglwys gadeiriol. Testun llawenydd mawr i Latimer oedd ymddangosiad y cyfieithiad swyddogol cyntaf o'r Beibl i Saesneg ym 1537. Ond ddwy flynedd yn ddiweddarach fe newidiodd y Brenin Harri ei safiad a rhoddodd sêl ei fendith ar chwe erthygl a gyflwynwyd i'r senedd. Roedd rhain fwy neu lai yn camu'n ôl i'r hen ddaliadau eglwysig traddodiadol. Dadleuodd Latimer a'i gyfeillion yn erbyn y chwe erthygl yn Nhŷ'r Arglwyddi ac o ganlyniad fe'i diswyddwyd ef ac fe'i gwaharddwyd rhag pregethu tra byddai'r brenin byw.

Treuliodd nifer o flynyddoedd yn dawel gyda'i deulu yn astudio ond ef o hyd oedd prif gocyn hitio'r arweinwyr ceidwadol. Arestiwyd Latimer a degau o arweinyddion eraill a goleddai Brotestaniaeth dan amheuaeth o heresi. Fe'i carcharwyd yn y Tŵr yn Llundain ond ar farwolaeth Harri VIII ym mis Ionawr 1547 fe'i rhyddhawyd. Bwriodd ati gydag egni i bregethu ac fe'i hystyrid yn ei gyfnod yn un o'r dynion mwyaf effeithiol yn y pulpud yn llawn arabedd a rhethreg effeithiol. Pan fu farw'r Brenin Edward ym 1553 Latimer oedd y caplan yn ei angladd. Yna daeth ei chwaer Gatholig, Mari, i'r orsedd a golygodd hyn newid byd i'r Protestaniaid. Arestiwyd Latimer ac fe'i carcharwyd unwaith eto yn y Tŵr ond ar ôl cyfnod byr yno fe'i symudwyd i Bocardo, carchar Rhydychen. Ar 16 Hydref 1555 fe'i llosgwyd ac fe ddywed yr hanesydd John Foxe mai ei eiriau olaf oedd, 'Be of good comfort, Master Ridley, and play the man: we shall this day light such a candle by God's grace in England, as (I trust) shall never be put out.'